

Partneriaeth Talysarn & Nantlle



Bwletin Ward Talysarn

Ionawr - Mawrth 2007

POBL IFANC TALYSARN A NANTLLE

Gweithgareddau Awyr Agored

Yn ystod hanner tymor fis Chwefror, cafodd 27 o bobl ifanc Talysarn a Nantlle gyfle i wneud gweithgareddau awyr agored. Trefnwyd yr wythnos gyda Chanolfan Tanrallt (TMC) a Phartneriaeth Talysarn a Nantlle. Trwy gydol yr wythnos symbylwyd sgiliau y bobl ifanc drwy wneud y gweithgareddau. Bu rhaid tynnu ar eu sgiliau bywyd a'u profiadau i weithio fel rhan o dîm, a gwneud penderfyniadau wrth ddelio â gweithgareddau datrys problemau. Cafwyd profiad o deimlo llwyddiant a champ bersonol wrth gyflawni tasgau fel teithio mewn ogofeydd, dringo ac abseilio ym Mlaenau Ffestiniog ac yn y Twll Plwm yn Llanfrothen.



Ymweliad i Tŷ Llywelyn yn Llandudno

Ar nos lau 22ain o Fawrth, aeth grŵp Siop Siarad i ymweld â chlwb pobl ifanc yn Llandudno. Cafwyd croeso cynnes a bwyd reit flasus; plat fawr o ffrwythau, cŵn poeth a byrgyrs! Cawsom gyfle i weld beth maen nhw fel grŵp o bobl ifanc wedi ei gyflawni: ymweliad i'r Stadiwm Mileniwm i weld Lerpwl ac Arsenal yn chwarae pêl-droed yn y 'charity shield'; diwrnod o 'paintballing'; a gwyliau yn 'Flamingo Land'. Yn ddiweddar mae'r criw pobl ifanc wedi sefydlu clwb bocsiio a threfnu alltaith i Morocco fis nesaf gyda Camre Cymru. Roedd yr ymweliad yn llwyddianus dros ben, gan fod y grŵp Siop Siarad wedi penderfynnu be allen nhw ei wneud yn Nhalysarn a Nantlle.

Gig Twrw Talysarn

Cynhaliwyd gig i bobl ifanc yn Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn ar nos Wener, 24ain o Fawrth. Trefnwyd y noson gan Donna Pritchard tra ar brofiad gwaith yn swyddfa Partneriaeth Talysarn a Nantlle. Roedd y noson yn llwyddiannus, gyda Pet Tree, y Promatics a Gethin Fôn yn perfformio yn fyw.

Mae Siop Siarad yn cael ei gynnal yn Nghanolfan Cymdeithasol pob nos lau am 7 o'r gloch. Cyfle i chi weithio ar syniadau gyda chymorth a'ch ffrindiau. Mae'r criw Siop Siarad ar hyn o bryd yn gweithio ar drefnu ymweliad i Gaerdydd ym mis Mai/Mehefin, a gwneud cais am grant i fyny at £10,000!! Os oes gennych syniadau neu sylwadau, gadewch i mi wybod ac mi geisiwn wneud o ddigwydd. Gareth Jones - Gweithwr Pobl Ifanc (07950 764 582) neu edue88.bebo.com

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethalysarnanant@btopenworld.com



communities first cymunedau yn gyntaf



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

GRŴP AMGYLCHEDD TALYSARN A NANTLLE

Yn dilyn llwyddiant y Diwrnod Ail-gylchu y llynedd, mae'r Grŵp Amgylchedd yn trefnu diwrnod arall tebyg ar Mehefin 2ail yn y Ganolfan. Bydd cyfle i chi ail-gylchu ffonau symudol, hen sbectol a chartrijes inc. hefyd bydd siop ffeirio llyfrau, CD's a DVD's, teganau a dillad. Cewch wybodaeth am sut i ail-gylchu a sut i leihau eich ôl troed carbon. Os oes gennych chi unrhyw syniadau i gynnig neu os ydych yn gwneud crefftwaith allan o ddefnyddiau wedi eu hail-gylchu byddwn yn falch iawn o glywed gennych. Ffoniwch Joan ar 881830. Cofiwch peidiwch a taflu dim i ffwrdd.

Cofiwch am y teithiau cerdded dydd Sadwrn olaf y mis. Rydym yn griw hwyliog ac yn mwynhau sgwrsio a cherdded o gwmpas Dyffryn Nantlle. Bydd teithiau cerdded yn cychwyn cyn bo hir i bobl sydd eisiau dechrau cerdded. Bydd y teithiau yma yn fyr ac yn hawdd a bydd paned ar y diwedd. Ffoniwch Eleri ar 881308 am fwy o wybodaeth.

CLWB PÊL - DROED TALYSARN CELTS

Ers y bwletin diwethaf mae y Celts wedi codi i ail safle yn y gynghrair. Canlyniadau fis Chwefror a Mawrth 2007:

Ennill 1 - 0 yn erbyn Trefor
Ennill 3 - 2 yn erbyn Penrhyn
Ennill 4 - 3 yn erbyn Penmachno
Cyfartal 1 - 1 yn erbyn Blaenau
Ennill 2 - 1 yn erbyn Caernarfon
Ennill 2 - 0 yn erbyn Llanrug

Mae gan y Celts gemau mawr i ddod sef 2 rownd cyn-derfynol cwpanau:
Cartref yn erbyn Llanystumdwy
Cartref yn erbyn Penrhyndeudraeth

Gobeithio cawn eich cefnogaeth!

BLODEUWEDD

Mae Grŵp Blodeuwedd yn brysur iawn yn gerio'u hunain i fyny tuag at yr Haf wedi iddynt dyfu cannoedd o blanhigion o hadau er mwyn eu plannu o amgylch yr ardal ym mis Mai. Maent hefyd yn cydweithredu â'r Cynghorydd Dilwyn Lloyd a Chyngor Gwynedd er mwyn gwella a thacluso tu allan i swyddfa'r Bartneriaeth a'r Ganolfan gan obeithio ei drawsffurfio o lanast mwldyd i blanhigion, llwyni, a gobeithio mainc bren.

Mae dyddiadau ein digwyddiadau poblogaidd fel a ganlyn:

Mercher 18fed Ebrill - 1.00yp - 3.00yp yn y Ganolfan, Talysarn.
Mercher 16eg Mai - 1.00yp - 3.00yp yn Llys Llywelyn, Nantlle
Mercher 13eg Mehefin - 1.00yp - 3.00yp yn y Ganolfan, Talysarn
Sadwrn 19eg Mai - 10.30yb - 3.00yp Sêl Planhigion Gŵyl Fai, Penygroes
Sadwrn 9fed Mehefin 10.30yb - 3.00yp Llys Llywelyn, Nantlle.

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

GRŴP TROSEDD A CHADW CYMUNED DDIOGEL - Diwrnod Ffair Wybodaeth

Cynhaliwyd Ffair Wybodaeth arbennig yng Nghanolfan Gymdeithasol Talysarn 15 Chwefror 2007. Roedd 30 o arddangoswyr yn cynnwys asiantaethau, mudiadau, adranau Cyngor Gwynedd a chynghorwyr lleol yn bresennol yn dosbarthu gwybodaeth am eu gwasanaethau a chynnig cefnogaeth ac arweiniad i drigolion yr ardal.

Manteisiodd llawer un ar y Gwasanaeth Tân i roi prawf ar flancedi trydan, gyda nifer yn cael blancedi newydd yn rhad ac am ddim yn lle y rhai oedd yn dangos nam. Yn ystod y diwrnod roedd y Gwasanaeth Tân yn anfon cynrychiolydd i dai y rhai oedd eisiau iddynt rhoi prawb i'w Larwm Tân yn eu cartref. Roedd anrhegion di-ri i'w gael gan yr arddangoswyr ac roedd disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Gynradd Talysarn ac Ysgol Baladeulyn, Nantlle yn llwythog iawn yn mynd adref.

Llongyfarchiadau i Sophie Jones am ennill beic newydd yng nghystadleuaeth darganfod y camgymeriadau a drefnwyd gan yr Heddlu. Da oedd gweld pobl ifanc yn casglu gwybodaeth a holi am y gwasanaethau eang sydd ar gael iddynt.

Yn sicr roedd y diwrnod yn gam ymlaen i geisio atal trosedd a chadw ein cymuned yn ddiogel.

SEINDORF ARIAN FRENHINOL DYFFRYN NANTLLE

Mae Seindorf Arian Frenhinol Dyffryn Nantlle wedi cario 'mlaen drwy gymeryd rhan yn eu gweithgareddau arferol dros y misoedd diwethaf ynghyd â threfnu digwyddiadau i ddod.

Fis Tachwedd diwethaf fe ddaeth y Band yn drydydd yn eu hadran yng nghystadleuaeth Rali Gogledd Cymru yn neuadd y dref yn Rhyl.

O gwmpas y Nadolig fe fuodd y criw o amgylch y pentrefi - yng nghanol pob tywydd - yn casglu arian tuag at gynhaliu y band a datblygiad eu criw ifanc. Chwaraeodd y Band mewn amryw o ddigwyddiadau fel Goleuadau Porthmadog, Cyngerdd Nadolig yn Neuadd Goffa Penygroes, Cyngerdd yng Nghanolfan Gymdeithasol Talysarn a'r nifer o berfformiadau mewn digwyddiadau eglwysig. Ers dechrau'r Flwyddyn Newydd mae'r Band wedi cyfnerthu eu haelodaeth ac ehangu eu darnau chwarae, gyda rhai o aelodau newydd yn ymuno ac un neu ddau yn cael dyrchafiad o adran iau'r Band.

Mae paratoadau yn mynd ymlaen i gymeryd rhan mewn amryw o ddigwyddiadau fel Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle, Rail Ale ac wrth gwrs ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol fis Awst. Yn ddiweddar bu i aelodau iau'r band gymeryd rhan mewn cystadleuaeth flynyddol Bandiau Pres leuencid Gogledd Cymru yn y Galeri yng Nghaernarfon lle gwnaethon ddangos eu doniau a chael profiad mewn cystadlu. Unrhyw un sydd â diddordeb am gael gwybod mwy am y band neu â diddordeb mewn ymuno â'r band yna cysylltwch â Gareth Williams ar 01286 882269.

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

DYDDIADAU CYFARFOD Y BARTNERIAETH 2007

30.04.07	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
04.06.07	Llys Llywelyn, Nantlle
02.07.07	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
03.09.07	Llys Llywelyn, Nantlle
01.10.07	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
05.11.07	Llys Llywelyn, Nantlle
03.12.07	Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Blwch Syniadau

Os oes gennych chi syniadau yr hoffech i'r Bartneriaeth eu hystyried, rhowch nhw yn y blwch yma a'i ddanfôn at Dafydd Williams yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn.

Enw:

Cyfeiriad:

Syniadau:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

**AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn**

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethtalysarnant@btopenworld.com